

# Atodiad A – rhestr o gyfarwyddiadau ar gyfer Refferendwm y UE

1	<b>Hysbysiad o refferendwm</b>	Rhaid i'r hysbysiad o refferendwm gael ei gyhoeddi ar ddyddiad i'w bennu gan y Prif Swyddog Cyfrif
2	<b>Papurau pleidleisio</b>	<p>Rhaid i'r papurau pleidleisio fod yn wyn; rhaid i bapurau pleidleisio a gyflwynwyd fod yn binc</p> <p>Rhaid i rifau papurau pleidleisio gynnwys rhagddodiad sy'n cynnwys hyd at dri nod alffa a fydd yn cael eu pennu ar gyfer pob ardal bleidleisio</p> <p>Rhaid i bapurau pleidleisio gael eu paratoi ar y ffurf a bennir gan y Prif Swyddog Cyfrif</p> <p>Gan ystyried nifer yr etholwyr yn yr ardal bleidleisio, rhaid argraffu o leiaf 110% o gyfanswm nifer y papurau pleidleisiau a all fod eu hangen yn yr ardal bleidleisio; rhaid i 100% o gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a all fod eu hangen mewn gorsaf bleidleisio benodol gael ei ddyrannu i'r orsaf bleidleisio honno</p>
3	<b>Gorsafydd pleidleisio</b>	<p>Wrth neilltuo etholwyr a staff i orsafydd pleidleisio, rhaid, <b>o leiaf</b>, gydymffurfio â'r cymarebau fel y'u nodwyd yng nghanllawiau etholiadol y Comisiwn <b>ac</b> mewn unrhyw achos lle mae gan orsaf bleidleisio fwy na 2,000 o etholwyr wedi'u neilltuo iddi, rhaid i'r Swyddog Cyfrif geisio cytundeb gan ei Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ynglŷn â'i drefniadau yn yr orsaf bleidleisio honno, gan nodi sut mae'n bwriadu ei rheoli er mwyn sicrhau y gall pob etholwr a neilltuwyd iddi bleidleisio'n hawdd heb unrhyw oedi</p> <p>Rhaid peidio â darparu copïau o lyfryn gwybodaeth y Comisiwn mewn gorsafydd pleidleisio</p>
4	<b>Dosbarthu cardiau pleidleisio</b>	Sicrhewch y caiff cardiau pleidleisio eu dosbarthu i etholwyr o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith yn dechrau o'r diwrnod ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o refferendwm

5	<b>Dosbarthu papurau pleidleisio post*</b>	<p>Sicrhewch y caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post sy'n cael eu hanfon i gyfeiriadau dramor eu hanfon o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith yn dechrau o'r diwrnod sy'n 4 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o refferendwm a ni ddylid eu cyhoeddi i'w derbyn cyn 28 diwrnod calendr cyn y bleidlais</p> <p>Sicrhewch y caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post sy'n cael eu hanfon i gyfeiriadau yn y DU eu hanfon o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith yn dechrau gyda'r diwrnod sy'n wyth diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o refferendwm</p>
6	<b>Amseriad y cyfrif</b>	Sicrhewch y bydd y broses o ddilysu a chyfrif pleidleisiau yn dechrau am 10pm GMT
7	<b>Y dull o ddilysu a chyfrif</b>	Sicrhewch fod eich trefniadau dilysu a chyfrif wedi'u strwythuro fel y bydd modd rhannu'r broses dilysu a chyfrif yn nifer o 'ardaloedd' hunangynwysedig, llai o faint na'r ardal bleidleisio, gyda'r cyfansymiau ar gyfer pob un o'r 'ardaloedd' hyn wedi'u cyfuno'n un cyfanswm i'r ardal bleidleisio; Rhaid peidio â dechrau cyfrif y pleidleisiau ar gyfer unrhyw 'ardal' hunangynwysedig nes bod y broses ddilysu ar gyfer yr 'ardal' honno wedi cael ei chwblhau
8	<b>Monitro perfformiad Swyddogion Cyfrif</b>	Darparu gwybodaeth reoli benodedig i'r Prif Swyddog Cyfrif
9	<b>Casglu pleidleisiau post – Post Brenhinol</b>	Mae'n rhaid i Swyddogion Cyfrif wneud trefniadau gyda'r Post Brenhinol am ysgubiad ar gyfer eu hardal bleidleisio, yn seiliedig ar gytundeb lefel gwasanaeth cenedlaethol
10	<b>Cyfrif Trwydded Ymateb Busnes Rhyngwladol</b>	Mi ddylai Swyddogion Cyfrif wneud trefniadau gyda'r Post Brenhinol am drwydded ymateb busnes rhyngwladol a sicrhau bod hyn yn cael ei ddefnyddio ar bob amlen ddychwelyd i'w gynnwys yn pecynnau pleidleisio drwy'r post sydd i'w hanfon at gyfeiriadau tramor